OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 123 (Cy. 29)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 66 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ebrill 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 7 (uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle "£70" rhodder "£80";

(b) yn rheoliad 11 (terfyn cyfalaf perthnasol), ym mharagraff (2)(a), yn lle "£30,000" rhodder "£40,000";

(c) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle "£27.50" rhodder "£28.50";

(d) yn rheoliad 22 (uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle "£70" rhodder "£80"; ac

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/214 (Cy. 58).

(e) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle "£27.50" rhodder "£28.50".

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

30 Ionawr 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt, neu y cynigiant eu darparu neu eu trefnu, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaeth gyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Reoliadau 2015 (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

— cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,

— cynnydd yn y terfyn cyfalaf perthnasol am ofal preswyl o £30,000 i £40,000,

— cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £27.50 i £28.50.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o Reoliadau 2015 (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel a ganlyn:

— cynnydd yn yr uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,

— cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal ac sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £27.50 i £28.50.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.